

CYLCHLYTHYR IECHYD CYMRU



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Dyddiad Cyhoeddi: 07.06.2017

STATWS: CYDYMFFURFIO

CATEGORI: ANSAWDD A DIOGELWCH

Teitl: GOSTWNG Y TARGED AR GYFER LLEIHAU GWASTRAFF BWYD O BRYDAU HEB EU GWEINI MEWN YSBYTAI I 5%

Dyddiad dod i ben / Adolygu: 01.07.2019

I'w weithredu gan:

Gadeiryddion y BILI
Prif Weithredwyr y BILI
Ysgrifenyddion y BILI
Cyfarwyddwyr Meddygol y BILI
Cyfarwyddwyr Nyrsio'r BILI

I'w weithredu gan Lywodraeth Cymru (neu er gwybodaeth):

Cyfarwyddwr Cyffredinol/Prif Weithredwr GIG Cymru
Dirprwy Brif Weithredwr GIG Cymru
Arweinwyr Polisi a Phroffesiwn
Tîm Gweithrediadau AIGC
Tîm Cyfathrebu AIGC
Tîm Digidol AIGC
Tîm Cyllid a Chyflawni AIGC
Cydwasaethau GIG Cymru

Angen gweithredu erbyn: Gweler paragraff 9

Anfonwyd gan: Jean White – y Prif Swyddog Nyrsio

Enw(au) Cyswllt AIGC yn Llywodraeth Cymru:

Martin Semple: Y Gyfarwyddiaeth Nyrsio – OCNOMailbox@wales.gsi.gov.uk - 03000 258918

Dogfen(nau) amgaeedig: Dim

1. Mae'r cylchlythyr hwn yn crynhoi dyletswyddau byrddau iechyd mewn perthynas â lleihau gwastraff bwyd o brydau heb eu gweini mewn ysbytai.
2. Mae lleihau gwastraff bwyd yn parhau'n rhan bwysig o reoli'r gost sy'n gysylltiedig â gwasanaethau arlwygo mewn ysbytai.
3. Yn sgil adolygiad 2011 o faeth a hydradu mewn ysbytai, a gynhaliwyd gan Swyddfa Archwilio Cymru, pennodd Llywodraeth darged o 10% ar gyfer gwastraff bwyd o brydau heb eu gweini. Bu'n rhaid i sefydliadau'r GIG fwrw'r targed hwnnw erbyn diwedd 2012-13.
4. Yn Adolygiad Arlwygo a Maeth Cleifion mewn Ysbytai (2015), a gynhaliwyd gan Swyddfa Archwilio Cymru, daethpwyd i'r casgliad bod ysbytai'r GIG wedi lleihau gwastraff bwyd ers 2011 o ganlyniad i'w hymdrech cydunol.
5. Ar hyn o bryd, mae'r rhan fwyaf o sefydliadau iechyd yn gweithredu o fewn y targed presennol o 10% mewn perthynas â gwastraff bwyd o brydau heb eu gweini mewn ysbytai.
6. Yn sgil archwiliad 2015 gan Swyddfa Archwilio Cymru, cyhoeddodd y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus ei adolygiad o arlwygo a maeth cleifion mewn ysbytai ym mis Mawrth 2017.
7. Er gwaethaf y gwelliant a gafwyd, mae cost y gwastraff yn parhau'n uchel. Mae'r ffigurau blynyddol diweddaraf yn dangos bod gwastraff bwyd o brydau heb eu gweini yn parhau i gostio £903,600 y flwyddyn i'r GIG yng Nghymru.
8. Ym mis Mawrth 2017, argymhellodd y Pwyllgor Cyfrifol Cyhoeddus y dylai Llywodraeth Cymru adolygu'r targed ar gyfer gwastraff bwyd er mwyn herio'r byrddau iechyd i leihau gwastraff cymaint â phosibl, a sicrhau'r arbedion mwyaf posibl.
9. Bellach, mae Llywodraeth Cymru yn gofyn bod y targed ar gyfer gwastraff bwyd o brydau heb eu gweini yn cael ei leihau o 10% i 5%.
10. Y targed hwn fydd ar waith ym mis Mehefin pa fydd data'n cael eu casglu ar gyfer System Rheoli Perfformiad Ystadau a Chyfleusterau 2016-17, sy'n cael ei rheoli gan Bartneriaeth Cydwasanaethau'r GIG - Gwasanaethau Ystadau Arbenigol.
11. Bydd perfformiad cyrff y GIG o ran monitro gwastraff bwyd yn cael ei asesu gan Lywodraeth Cymru pa fydd adroddiad y System Rheoli Perfformiad yn cael ei gyflwyno'n ffurfiol gan y Bartneriaeth Gydwasaethau ddechrau'r hydref 2018.